Grŵp Trawsbleidiol ar

# Hosbisau a Gofal Lliniarol

Pa rôl all rhaglen Cymru Garedig Llywodraeth Cymru ei chwarae wrth gynyddu capasiti a gwydnwch mewn cymunedau yn ystod Covid-19 ac ar ôl hynny?
2020-21







## ARGYMHELLION

**Dylai Cymru Garedig anelu camau gweithredu a chymorth at lle mae'r angen mwyaf, drwy:**

1. **Ymgysylltu â chymunedau hiliedig a'u cefnogi**
2. **Ei wneud yn fusnes i bawb fod yn darparu gofal cyn marwolaeth ddisgwyliedig ac yn ystod profedigaeth**
3. **Gofalu am deuluoedd a gofalwyr**
4. **Arwain sgwrs genedlaethol gyda phobl Cymru am 'yr hyn sy'n bwysig' ar ddiwedd oes**

# Ynghylch y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

Pwrpas y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol yw cynnal a datblygu dealltwriaeth a diddordeb gan Aelodau o'r Senedd o faterion sy'n effeithio ar hosbis a gwasanaethau gofal lliniarol, er mwyn gwella gofal diwedd oes yng Nghymru.

Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol: Mark Isherwood AS, Ceidwadwyr Cymreig, Gogledd Cymru

Ysgrifenyddiaeth wedi'i darparu gan Dr Catrin Edwards ar ran Hospice UK

# Rhagair y Cadeirydd

## Mae'n amlwg o'r cyfraniadau a gafodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau drwy gydol 2020-21 fod gan ymagweddau Cymunedau Caredig fanteision amlwg i unigolion, cymunedau a systemau iechyd a gofal, wrth iddyn nhw ofalu am bobl sy'n marw, sy'n gofalu, neu sydd mewn profedigaeth.

Mae'r ymagwedd gyd-gynhyrchiol hon tuag at wydnwch cymunedol yn fwy perthnasol ac angenrheidiol nawr nag erioed, wrth i Gymru brofi pandemig Covid-19, ac wrth adfer ohono dros amser. Dro ar ôl tro eleni, clywson ni yn y Grŵp Trawsbleidiol am bwysigrwydd defnyddio ymagwedd ar sail asedau wrth gefnogi cymunedau; pobl yw ein hasedau gorau, a dylai'r hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau fod yn ganolog i ymagwedd Cymru Garedig.

Rwy'n ddiolchgar i'r cymunedau, yr elusennau, yr hosbisau, a'r timau iechyd a gofal am rannu gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau sut maen nhw wedi arloesi er mwyn wynebu'r heriau wrth ddiwallu anghenion eu cymunedau yn ystod pandemig Covid-19. Roedd rhai o'r negeseuon a gafwyd o lawr gwlad yn galonogol, roedd eraill yn alwad i weithredu er mwyn mynd i'r afael â meysydd lle nad yw rhaglenni presennol – gan gynnwys Cymru Garedig Llywodraeth Cymru – yn diwallu anghenion y gymuned.

Gyda hynny mewn cof, rwy'n falch o rannu canfyddiadau gwaith y Grŵp Trawsbleidiol eleni, gan amlygu ffyrdd ymlaen ar gyfer ymagwedd Cymru Garedig os ydyn ni am rymuso a meithrin capasiti mewn cymunedau er mwyn cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl sy'n profi effaith marwolaeth a phrofedigaeth yn ystod pandemig Covid-19 a'r tu hwnt.

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

# Argymhellion

## Argymhellion ar gyfer rhaglen Cymru Garedig Llywodraeth Cymru

### 1. Ymgysylltu â chymunedau hiliedig a'u cefnogi

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol yn glir gan arweinwyr cymunedau BAME nad yw eu cymunedau hiliedig nhw yn cael mynediad mor deg at ofal profedigaeth a chymorth gofal lliniarol cyfannol ar hyn o bryd, ac nad yw pobl mor ymwybodol ohono. Ynghyd â hyn, wnaeth y Grŵp Trawsbleidiol ddim clywed am un prosiect yng Nghymru o dan faner 'Cymunedau Caredig' – boed wedi'i ariannu ai peidio – sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau hiliedig yn uniongyrchol[1]. Mewn perthynas â chynnwys cymunedau hiliedig mewn ymagweddau caredig tuag at ofal lliniarol, dywedwyd wrth y Grŵp Trawsbleidiol:

> **'Ategolion ydyn ni [pobl a chymunedau BAME]'**
>
> *Y Gweinidog Hadassah Radway, BHM 360*

Mae'r bwlch hwn yn bodoli er gwaethaf cyd-destun pandemig Covid-19, sydd wedi cael effaith anghymesur ar bobl a chymunedau BAME. Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol am effaith gymdeithasol y pandemig, effaith sydd wedi effeithio ar bobl groenliw yn wahanol. Cyfeiriodd arweinwyr cymunedau BAME at yr effaith benodol ar brofiad pobl o gymunedau BAME mewn profedigaeth yn ystod y cyfnod clo, gyda llawer o deuluoedd yn methu cyflawni'r arfer o "ddychwelyd adref" neu ddefodau a fyddai'n aml yn cynnwys llawer o deuluoedd yn ymgasglu yng nghartref y teulu mewn profedigaeth am gyfnod estynedig[2]. Mae hyn wedi'i waethygu gan y lefel uwch o farwolaethau sydd wedi'i gofnodi ymhlith pobl groenliw: yng Nghymru a Lloegr, dynion o gefndir ethnig Du Affricanaidd oedd â'r gyfradd farwolaeth uchaf mewn perthynas â Covid-19, a oedd 2.7 gwaith yn uwch na dynion o gefndir ethnig Gwyn; menywod o gefndir ethnig Du Caribïaidd oedd â'r gyfradd uchaf ymhlith menywod, a oedd 2.0 gwaith yn uwch na menywod ethnig Gwyn[3].

Er nad oes cyfranogiad ffurfiol hysbys mewn prosiectau Cymru Garedig, mae cymunedau BAME wedi mynd ati'n annibynnol i gynyddu eu gweithgarwch cymunedol presennol a'u hymagweddau caredig er mwyn mynd i'r afael â heriau penodol y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys parseli bwyd diwylliannol briodol i bobl sy'n gorfod gwarchod rhag y coronafeirws[4], a grwpiau cymorth ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth, yn aml ar sail ardal neu ffydd[5].

Tynnwyd sylw at wasanaethau wedi'u teilwra i fodloni anghenion penodol cymunedau hiliedig, ac yn benodol gofal iechyd meddwl a phrofedigaeth acíwt, fel bylchau penodol y mae'n rhaid eu datrys ar gyfer y dyfodol[6]. Soniwyd wrth y Grŵp Trawsbleidiol am bwysigrwydd cynnwys pobl o gymunedau amrywiol yn rhan o'r gwaith o gydgynhyrchu gwasanaethau, er mwyn arwain at ofal mwy cynhwysol a hygyrch. Mae gwaith blaenorol gan ymagweddau Cymunedau Caredig hosbisau ar draws gwledydd Prydain wedi nodi'r arfer o ddatblygu grwpiau cynghori BAME er mwyn llywio gwaith cynllunio gwasanaethau cynhwysol[7]. Serch hynny, dywedwyd yn glir wrth y Grŵp Trawsbleidiol bod yn rhaid i waith ymgysylltu rhwng gwasanaethau ffurfiol a chymunedau amrywiol gyd-fynd ag ymrwymiad i wrando ac i weithredu newid os yw cysylltiadau rhwng cymunedau a gwasanaethau am fod yn ystyrlon ac yn gynaliadwy[8].

**"Rhaid ymgysylltu ac yna ymrwymo i wneud y newid"**

*Monica Reardon, Marie Curie*

### Beth sydd angen digwydd nesaf

- Dylai cymunedau hiliedig fod yn rhan o gydgynhyrchu mentrau Cymunedau Caredig o'r dechrau un
- Dylai gwasanaethau ffurfiol fynd ati i ymgysylltu â'r cymunedau hiliedig maen nhw'n eu gwasanaethu, ac ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal

## 2. Ei wneud yn fusnes i bawb fod yn darparu gofal cyn marwolaeth ddisgwyliedig ac yn ystod profedigaeth

Gan weithio ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth, clywodd y Grŵp Trawsbleidiol am yr anghenion profedigaeth sylweddol y bydd Cymru yn eu hwynebu yng ngoleuni pandemig Covid-19, gydag amcangyfrif bod 185,000 o bobl wedi cael profedigaeth yn ystod 2020[9]. O ystyried maint y ffigur hwn, mae'n debygol y bydd pob cymuned ledled Cymru yn cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth. Yn hyn o beth, mae Covid-19 yn golygu bod gofal profedigaeth eisoes yn fusnes i bawb.

Mae tystiolaeth o astudiaethau blaenorol ar brofedigaeth yn awgrymu bod yr amodau a oedd yn amlwg yn ystod pandemig Covid-19 – fel ynysigrwydd cymdeithasol, marwolaethau sydyn, a chysylltiad cyfyngedig gydag anwyliaid – yn debygol o arwain at ganlyniadau cymhleth o ran galar[10]. Mae hyn wedi'i osod yng nghyd-destun yr Arolwg Cwmpasu Profedigaeth, a sefydlwyd cyn y pandemig, a amlygodd fylchau presennol mewn gwasanaethau gofal profedigaeth ledled Cymru, gan gynnwys amseroedd aros hir ar gyfer cwnsela ac amrywiadau rhanbarthol o ran mynediad at ofal[11].

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol fod effaith nodedig ar bobl sy'n profi profedigaeth ar ôl marwolaeth anwylyd o ganlyniad i Covid-19, ac nad oedd modd iddynt gael mynediad at gymorth profedigaeth amserol. Mae hyn wedi arwain at grwpiau cymorth ar-lein, fel Teuluoedd Covid-19 Cymru, lle mae teuluoedd mewn profedigaeth yn gweithredu fel ffynonellau gwybodaeth a chymorth yn absenoldeb cymorth a chefnogaeth ffurfiol[12]. Mewn ymateb i hyn, soniodd yr hosbisau bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'n rhannol wasanaethau profedigaeth hosbis fesul pen o'r boblogaeth, gyda'r nod o sicrhau bod gofal profedigaeth hosbis yn cyrraedd pobl ym mhob ardal yng Nghymru. Yn achos rhai hosbisau, mae hyn wedi darparu cyllid i ehangu eu gofal profedigaeth i bobl mewn ardaloedd o Gymru na fyddent yn cael eu gwasanaethu gan ofal hosbis fel aral[13], ac yn ehangu eu gofal at weithwyr proffesiynol ar y rheng flaen, fel mewn cartrefi gofal[14].

Roedd gofal cyn-profedigaeth yn cael ei hyrwyddo'n gyffredinol fel ffordd o feithrin gwydnwch a gwella canlyniadau profedigaeth. Ynghyd â chefnogaeth emosiynol a llesiant, dywedwyd wrth y Grŵp Trawsbleidiol bod y dull hwn yn gyfannol ac yn cefnogi materion cymdeithasol, cartref ac economaidd y teulu, pan fydd marwolaeth anwylyd yn effeithio ar y ffactorau hyn[15].

Clywson ni na fyddai cyfran sylweddol o gymorth ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth yn cael ei chydnabod yn ffurfiol fel gofal profedigaeth.

> **“Rydyn ni’n meddwl am ofal profedigaeth fel gwasanaeth, ond dydy hynny ddim yn wir bob tro”**
> *Julian Abel, Cymunedau Caredig y Deyrnas Unedig*

Mae hyn yn cyfeirio at ymateb anffurfiol cymunedau i gefnogi pobl mewn profedigaeth, ynghyd â rôl fwy ffurfiol Cymru Garedig, a’r Siarter Gwlad Garedig, er mwyn sicrhau bod pob rhan o fywyd dinesig – ysgolion, canolfannau cymunedol, cartrefi gofal a mwy – wedi’u paratoi i fodloni anghenion pobl mewn profedigaeth. Mae cyfle gyda’r Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol sydd wrthi’n cael ei ddatblygu i adlewyrchu’r ymateb cymunedol hwn. Fel rhan o’r ymdrech hon, nododd gweithwyr profedigaeth proffesiynol eu rôl i uwchsgilio ac addysgu arbenigwyr mewn meysydd proffesiynol eraill nad ydynt yn brofedigaeth, i gefnogi pobl mewn profedigaeth mewn lleoliadau cymunedol. Disgrifiwyd yr agwedd hon o rôl y darparwr profedigaeth arbenigol fel:

> **“Gwneud galar yn fusnes i bawb”**
> *Jonathan Pearce, Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Lliniarol, Hosbis y Cymoedd*

### Beth sydd angen digwydd nesaf

- Blaenoriaethu anghenion profedigaeth yn dilyn Covid-19 fel rhan o raglen Cymru Garedig ar gyfer 2021/22, a mynd ati i lywio a datblygu’r cymorth profedigaeth ar lefel gymunedol sy’n dilyn ymlaen o’r Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol
- Nodi cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau mewn cymunedau, lle gall gweithwyr proffesiynol mewn meysydd gofal eraill (addysg, gofal cymdeithasol, meddygon teulu) chwarae rôl mewn hwyluso canlyniadau profedigaeth da
- Cynllunio i gyrraedd pobl yn gynnar drwy wella mynediad at ofal cyn-profedigaeth lle mae marwolaeth yn ddisgwyliedig
- Cefnogi a hyrwyddo mynediad agored at wasanaethau profedigaeth

## 3. Gofalu am deuluoedd a gofalwyr

Mae Covid-19 wedi rhoi baich ofalu ychwanegol sylweddol ar deuluoedd sy’n byw gyda rhywun â salwch angheuol neu blentyn sydd â chyflwr sy’n cyfyngu ar eu bywyd. Dywedwyd wrth y Grŵp Trawsbleidiol bod oedolion sy’n marw, ers y pandemig, wedi treulio 80-90 y cant o’u hamser heb weithwyr proffesiynol (ac felly’n ddibynnol ar ofal gan ofalwyr a theulu heb dâl)[16], ac mae teuluoedd sydd â phlentyn â chyflwr sy’n cyfyngu ar eu bywyd yn darparu oddeutu 95 y cant o’r gofal o dan amgylchiadau arferol[17], sydd wedi cynyddu ymhellach wrth i deuluoedd warchod plant sy’n agored i niwed. Rhoddodd gyfranogwyr wybod i ni fod angen ystyried profiad cymdeithasol darparu gofal – gan gynnwys teimladau o ymyleiddio, allgáu (gwirioneddol neu ganfyddedig) o grwpiau cymdeithasol a chyflogaeth, a’r effaith ar berthnasau teuluol – a bod gan Gymru Garedig rôl i’w chwarae yn hyn.

Serch hyn, nid oes llawer o fentrau o dan faner Cymru Garedig sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol i blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywyd a'u teuluoedd. Er bod sefydliadau sy'n cefnogi plant yn cynnig cymorth teuluol priodol, mae hyn yn dueddol o fod yng nghyd-destun y sefydliad yn hytrach na'r gymuned ehangach. Clywson ni fod teuluoedd sydd â phlant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywyd yn aml yn teimlo'n anweledig yn eu cymunedau, ond y gellid darparu cefnogaeth gan eu cymunedau drwy gynlluniau wedi'u hwyluso ac sydd ag adnoddau digonol[18].

Mae hosbisau plant wedi cynnig gwasanaethau rhithwir a rhaglenni ar-lein ar gyfer y teulu cyfan drwy gydol y pandemig[19], a chlywodd y Grŵp Trawsbleidiol am ddarpariaeth rithwir lwyddiannus gan wasanaethau ffurfiol a phrosiectau Cymunedau Caredig sydd wedi'u hanelu at gefnogi gofalwyr a gofalwyr sydd mewn profedigaeth ers dechrau'r cyfnod clo. Mae'r rhain wedi bod yn amrywiol ac yn greadigol, gan gynnwys cwrs pobi bara ar-lein ar gyfer dynion sy'n ofalwyr[20] a sesiynau gweithgareddau i frodyr a chwiorydd.

> **"Mae Covid wedi'n dysgu ni bod rhithwir yn bosib, ond nid yw yr un fath â gofal wyneb yn wyneb."**
> *Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith*

Nodwyd gofal seibiant – neu gymryd egwyl o ofalu wrth i'r unigolyn sy'n derbyn gofal gael gofal gan rywun arall – fel rhywbeth hanfodol i deuluoedd, ac roedd llawer ohonynt ar bwynt o argyfwng ar ôl cyfnod hir o fyw dan gyfyngiadau. Mae llawer o wasanaethau bellach yn parhau â gofal seibiant wyneb yn wyneb yn ofalus. Mae hyn yn cynnwys gofal seibiant byr i blant mewn hosbisau plant, gwasanaethau eistedd wyneb yn wyneb gan arbenigwyr fel hosbisau, a mentrau cyfeillio cymunedol.

> **"Llwyddais i wneud gwerth wythnos o siopa bwyd ac yna eistedd yn y car am ddeg munud. Hyfryd!"**
> *Jo, gwraig a gofalwr Nigel. Caiff gofal seibiant ei ddarparu fel rhan o raglen gyfeillio Coedpoeth Garedig gan Vincent y gwirfoddolwr*

## Beth sydd angen digwydd nesaf

- Dylai mentrau i gefnogi gofalwyr ystyried cymysgedd o gymorth rhithwir a wyneb yn wyneb (sy'n ddiogel o ran Covid-19)
- Dylid archwilio a mynd i'r afael â bylchau mewn cymorth Cymunedau Caredig i deuluoedd sydd â phlant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywyd, gan gynnwys y partneriaid sy'n deall eu hanghenion penodol

## 4. Arwain trafodaeth genedlaethol gyda phobl Cymru am 'yr hyn sydd bwysicaf' ar ddiwedd oes

Mae pandemig Covid-19 wedi codi proffil marwolaeth, marw, a phrofedigaeth yn ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn ffordd nas gwelwyd o'r blaen, ond eto nododd y cyfranwyr bod tabŵ a diffyg dealltwriaeth am farwolaeth a marw yn parhau.

> **"Dydy marw ddim yn rhywbeth rydyn ni'n gwybod llawer yn ei gylch."**
> *Lesley Bethell, Cadeirydd Cymru Garedig*

Mae hyn yn cynnig cyfle i raglen Cymru Garedig ddod â'r cyhoedd yn rhan o'r gwaith o gynllunio eu gofal eu hunain a chymell cymunedau i gefnogi pobl sy'n profi effaith Covid-19.

Roedd consensws llwyr ymhlith cyfranwyr y Grŵp Trawsbleidiol y dylai cynllunio ar gyfer ein dewisiadau gofal diwedd oes gael ei ystyried fel proses gymdeithasol, yn hytrach na phroses feddygol yn unig – proses y mae gan gymunedau rôl ganolog yn ei hwyluso.

> **"Peidiwch â gor-feddyginiaethu marwolaeth"**
> *Yr Athro Mark Taubert, Arweinydd Clinigol ar gyfer Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol*

Mae'r ymagwedd 'yr hyn sydd bwysicaf' yn un a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddechrau ac adeiladu sgyrsiau am gynllunio gofal ar lefel teuluol a chymunedol, drwy gydol oes bywyd[21].

Yn debyg i lawer o'r problemau a gyflwynwyd i'r Grŵp Trawsbleidiol mewn perthynas ag agenda Cymunedau Cyfeillgar, a sut mae hyn yn trosi i lefel genedlaethol o dan y rhaglen Cymru Garedig, cafodd y tensiwn parhaus rhwng ymagwedd 'o'r brig i'r gwaelod' ac 'o'r gwaelod i fyny' ei archwilio mewn perthynas â'r mater hwn. Roedd consensws mai cymunedau lleol oedd yn y sefyllfa orau i gynnal y trafodaethau hyn, ond y byddai ymgyrch ac arweiniad cenedlaethol yn hwyluso sgyrsiau lleol.

Ochr yn ochr â hyn, er bod tuedd tuag at ddewis ymagwedd gymdeithasol tuag at gynllunio gofal, cydnabuwyd na ddylid tanbrisio arbenigedd gweithwyr meddygol proffesiynol a'r rhai sydd wedi'u hyfforddi mewn sgiliau trafod Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol. Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol am rôl arbenigwyr hosbis ym maes Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol i uwchsgilio gweithwyr cartrefi gofal i hwyluso cynllunio o'r fath ar gyfer preswylwyr drwy gydol y pandemig[22]. Wedi'i gosod nghyd-destun achosion unigol lle gwelwyd Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol neu orchmynion Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol amhriodol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn ystod y pandemig, mae'r rôl arbenigol hon yn werthfawr iawn[23]. Yn yr un modd, o fewn ymagweddau Cymunedau Caredig lleol system gyfan, cydnabyddir pwysigrwydd Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac at y Dyfodol, gyda Chlwstwr Gofal Sylfaenol De Orllewin Caerdydd yn cysegru un o bedair ffrwd waith yn eu rhaglen Cymunedau Caredig i gefnogi pobl sy'n cyrraedd diwedd eu hoes.

Serch hynny, rhybuddiodd cyfranwyr y Grŵp Trawsbleidiol na all sgwrs genedlaethol na sgyrsiau lleol ac unigol am ddewisiadau gofal ar ddiwedd oes gael eu cynnal ar wahân heb argaeledd gwasanaethau ffurfiol.

> **“Mae’n gallu bod yn anodd gwneud addewidion i bobl sy’n marw o ran cyflawni eu dymuniadau, oherwydd allwn ni ddim gwarantu y bydd y cymorth sydd ei angen arnyn nhw bob amser ar gael, neu’n addas iddyn nhw.”**
> *Lesley Bethell, Cadeirydd Cymru Garedig*

### Beth sydd angen digwydd nesaf

- Gydag arweiniad cenedlaethol, hyrwyddo mentrau cymunedol sy’n cefnogi pobl i ddefnyddio ymagwedd model cymdeithasol i gynllunio ar gyfer diwedd oes
- Ystyried rôl y rhai sydd â phrofiad o gynnal sgyrsiau ‘beth sy’n bwysig’ i gefnogi pobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol i ymgysylltu â chymunedau ehangach

## Ystyriaethau y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad

Drwy gydol cyfnod ein gwaith ar rôl rhaglen Cymru Garedig o ran cefnogi cymunedau yn ystod Covid-19 ac ar ôl hynny, cododd cyfranwyr faterion sydd y tu hwnt i gwmpas cylch gwaith ymchwil y Grŵp Trawsbleidiol.

Rydyn ni’n cydnabod bod yr ystyriaethau hyn yn ymwneud â llwyddiant a gweithrediad rhaglen Cymru Garedig, sydd yn ei dro yn fframio’r potensial i weithredu’r argymhellion rydyn ni wedi’u cynnig. Am y rheswm hwn, rydyn ni’n credu bod lle i amlinellu ystyriaethau pellach y dylai rhaglen Cymru Garedig geisio mynd i’r afael â nhw.

Er eu bod yn deillio o’r sector gofal diwedd oes, roedd consensws sylweddol bod ymagweddau cymunedau caredig yn fuddiol i gymunedau cyfan. Er hyn, nid oes llawer o ddealltwriaeth y tu hwnt i’r sector gofal diwedd oes am ystyr ‘cymunedau caredig’, gydag enwau gwahanol yn cael eu defnyddio mewn sectorau gwahanol ar gyfer ymagweddau tebyg tuag at weithredu cymunedol. Gyda hyn mewn cof, mae’r Grŵp Trawsbleidiol yn cynnig y dylai’r rhaglen wneud y canlynol:

- Gwella dealltwriaeth a hyrwyddo gwaith y Siarter Gwlad Garedig a modelau gofal Cymunedau Caredig, gan gynnwys defnyddio terminoleg gyson ymhlith cyrff statudol rhanbarthol a chenedlaethol
- Sicrhau bod modd adnabod modelau llwyddiannus o weithredu cymunedol a, lle bo’n briodol, newid eu maint ar gyflymder neu eu cyflwyno i ardaloedd eraill yng Nghymru

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol hefyd am natur dameidiog cyllid ar gyfer ymagweddau Cymunedau Caredig ledled Cymru. Mae rhai yn cael eu cefnogi'n llwyr gan wirfoddolwyr, ac mae eraill yn cael eu cefnogi drwy sefydliadau trydydd sector ar lefel leol neu genedlaethol, tra bod eraill wedi defnyddio cyllid cenedlaethol, gan gynnwys Cronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru. Wrth symud ymlaen, dylai rhaglen Cymru Garedig wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gan ymagweddau o dan faner Cymru Garedig fynediad at gyfleoedd ariannu cenedlaethol.

Yn olaf, er bod rhaglen Cymru Garedig yn rhan allweddol o ddarparu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn wlad garedig, nid oes gan y rhaglen gysylltiad nac ymgysylltiad eang ar draws portffolios y llywodraeth eto. Yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod Cymru Garedig yn cael ei chynnwys ym mhob strategaeth a chynllun perthnasol, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, tai, cymunedau, a'r trydydd sector

# Cyfeiriadau


1. Er enghraifft, rhannodd yr Athro Uzo Iwobi mewn cyfarfod ar 20 Ionawr 2021 nad oedd dim cyfranogiad wedi bod gan Gymru Garedig nac unrhyw sefydliad o dan deitl Cymuned Garedig yn ddim un o'r pum Hyb Diwylliannol oedd yn cael ei arwain gan Gyngor Hil Cymru.
2. Y Gweinidog Hadassah Radway, 20 Ionawr 2021.
3. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/updatingethniccontrastsindeathsinvolvingthecoronaviruscovid19englandandwales/deathsoccurring2marchto28july2020
4. Arweiniodd Chris Campbell, a fu'n gweithio ledled Torfaen, ymdrech gymunedol i drefnu ac i gludo parseli bwyd a oedd yn ddiwylliannol briodol i deuluoedd mewn cymunedau BAME mewn ymateb i ddiffyg cymorth priodol gan ffynonellau statudol.
5. Cyfeiriwyd at rôl WhatsApp a Facebook i uno cymunedau fel enghreifftiau.
6. Patience Bentu, Cyngor Hil Cymru, 20 Ionawr 2021.
7. Murungu D, Woolf TSS, OA17 Compassionate communities: engaging with communities to support patients at end of life: a Birmingham St Mary's hospice lived experience BMJ Supportive & Palliative Care 2015;5:A5-A6.
8. Monica Reardon, Marie Curie, 4 Mawrth 2021.
9. Yn seiliedig ar amcangyfrif bod pob marwolaeth yn gadael pum person mewn profedigaeth.
10. Dr Emily Harrop, Canolfan Ymchwil Marie Curie a Phrifysgol Caerdydd mewn cyflwyniad ar 26 Tachwedd 2020.
11. C. Ochieng et al (2019) 'Arolwg cwmpasu o wasanaethau profedigaeth yng Nghymru' Canolfan Ymchwil Gofal Lliniarol Marie Curie, Prifysgol Caerdydd.
12. Andrea Williams o Teuluoedd Covid-19 Cymru, 26 Tachwedd 2020.
13. Ardaloedd lle mae gwasanaethau'r GIG yn cyrraedd anghenion gofal lliniarol lleol. Nid yw hyn fel arfer yn cynnwys darparu gofal profedigaeth.
14. Er enghraifft, mae hosbisau'n cynnig gofal profedigaeth a goruchwyliaeth i weithwyr cartrefi gofal, ac mae gwasanaeth Just B Hospice UK, fel rhan o bartneriaeth Our Frontline, yn darparu cymorth profedigaeth a thrawma dros y ffôn.
15. Jonathan Pearce, Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Lliniarol, Hosbis y Cymoedd, mewn cyfarfodydd ar 23 Mehefin 2020 a 26 Tachwedd 2020.
16. Lesley Bethell, Cadeirydd Cymru Garedig, 4 Mawrth 2021.
17. Andy Goldsmith, Prif Weithredwr Hosbisau Plant Tŷ Gobaith, 4 Mawrth 2021.
18. Andy Goldsmith, 4 Mawrth 2021.
19. Andy Goldsmith a Deborah Ho, 25 Mehefin 2020.
20. Luke Conlon, Cymunedau Caredig Sir Benfro, 23 Medi 2020.
21. Gweler, er enghraifft, https://www.whatmattersconversations.org/2020-charter
22. Laura Hugman, Hosbis yn y Cartref Paul Sartori, 25 Mehefin 2020.
23. Gweler, er enghraifft, y cyd-ddatganiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru https://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/20-07-21/Joint_Statement_by_the_Older_People_s_Commissioner_for_Wales_and_Equality_and_Human_Rights_Commission_in_Wales.aspx